AIM Qualifications
Diploma Lefel 3 mewn Creu Cyfryngau, Cynhyrchu a Chymorth Crefft (601/8449/8)

601/8449/8

FERSIWN 1 MAI 2024

Hanes fersiwn y ddogfen

Rhif y fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad
1	Mai 2024	▪ Dogfen wedi'i chreu

Cynnwys

Amdanom ni 1

Diploma Lefel 3 AIM Qualifications mewn Creu Cyfryngau, Cynhyrchu a Chymorth Crefft 1

Ynglŷn â manyleb y cymhwyster hwn 1

Cynnig y cymhwyster hwn 1

Adran Un - Trosolwg o'r Cymhwyster 2

Ynglŷn â'r cymhwyster hwn 3

Manylion y cymhwyster 3

Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (RQF) 4

Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) ac Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH) 4

Cyfleoedd dilyniant 4

Gofynion mynediad 4

Gofynion adnoddau 4

Gofynion i gyflwyno'r Cymhwyster hwn 5

Adran 2 — Strwythur y cymhwyster 6

Strwythur a chydrannau'r cymhwyster 7

Disgrifyddion lefel 9

Adran 3 - Asesu 10

Sut mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu 11

Addasiad rhesymol ac ystyriaethau arbennig 11

Dulliau asesu 12

Marcio, gwirio ac addasiadau 14

Adran pedwar - Canllawiau gweithredol 16

Cynnig y cymhwyster hwn 17

Cymeradwyo cynnig y cymwysterau hyn 17

Cofrestru ac ardystio 17

Adran pump - Atodiadau a dolenni 18

Atodiadau a dolenni 19

Dolen 1 - Llawlyfrau a ffurflenni Canolfannau AIM 19

Dolen 2 - AIM Qualifications: Llawlyfr Asesu 19
Dolen 3 - Ffioedd a Thaliadau 19
Dolen 4 - Chwilio Cymwysterau 19
Berfau gorchymyn 20
Geirfa termau asesu 22

Amdanom ni

Diploma Lefel 3 AIM Qualifications mewn Creu Cyfryngau, Cynhyrchu a Chymorth Crefft

Mae AIM Qualifications and Assessment Group yn Sefydliad Dyfarnu blaenllaw sy'n cyflenwi cannoedd o ganolfannau â chymwysterau galwedigaethol a thechnegol rheoleiddiedig. Rydym ni hefyd yn cynnig darpariaeth nad yw'n achrededig ac asesiadau diweddbwynt prentisiaethau.

Mae AIM Qualifications yn cwmpasu ystod o lefelau academaidd o Lefel Mynediad i Lefel 6 ar draws ystod eang o feysydd pwnc.
Mae ein holl gymwysterau Lefel 3 yn y DU yn cario pwyntiau tariff UCAS a all gyfrif tuag at ofynion mynediad i'r brifysgol.

Ynglŷn â manyleb y cymhwyster hwn

Mae'r fanyleb hon wedi'i bwriadu ar gyfer tiwtoriaid, sicrhawyr ansawdd mewnol, rheolwyr canolfannau a staff eraill mewn canolfannau a/neu ddarpar ganolfannau cydnabyddedig gan AIM. Mae'n darparu gwybodaeth am strwythur y cymhwyster a chyflwyno'r cymhwyster. Dylid darllen y fanyleb ar y cyd â Llawlyfr Canolfannau AIM a dogfennau polisi eraill sydd ar gael ar y wefan ac ym mhorth MIA.

Cynnig y cymhwyster hwn

Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, rhaid i chi fod yn ganolfan gydnabyddedig gan AIM a bod wedi cael eich cymeradwyo i gyflwyno'r cymhwyster hwn. Os nad yw eich canolfan wedi'i chydnabod eto, cysylltwch â'n tîm datblygu busnes i drafod dod yn ganolfan gydnabyddedig gan AIM. Gallant eich cynghori ar y cymwysterau gorau i'ch sefydliad.

Gallwch drefnu cyfarfod drwy e-bostio businessdevelopment@aimgroup.org.uk neu ffonio 0844 225 3377. Mae rhagor o wybodaeth ar: www.aim-group.org.uk/newcentre

Adran Un - Trosolwg o'r Cymhwyster

Ynglŷn â'r cymhwyster hwn

Y Diploma Lefel 3 mewn Creu Cyfryngau, Cynhyrchu a Chymorth Crefft yw'r cymhwyster cyfunol sydd wedi'i gynnwys yn y Brentisiaeth Uwch mewn Cyfryngau Creadigol a Digidol (Cymru). Mae'r Brentisiaeth hon wedi'i chynllunio i ddenu a datblygu prentisiaid cymwys sy'n barod am waith creadigol a digidol, sy'n fedrus ac sy'n gallu gweithio ar draws gwahanol dechnolegau. Bydd y cymhwyster yn rhoi cyfle i chi ddatblygu'r cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer eu llwybr dilyniant arfaethedig.

Mae'r Diploma yn cynnwys unedau sy'n seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) a ddatblygwyd gan Creative Skillset — y Cyngor Sgiliau Sector a chorff gosod safonau a gydnabyddir gan y llywodraeth ar gyfer y diwydiannau creadigol.

Gallai'r cymhwyster hwn arwain dysgwyr at hyfforddiant lefel uwch a rolau o fewn y diwydiant. Mae rhai o'r swyddi posibl yn cynnwys ymchwilydd cyfryngau, cynhyrchydd radio, golygydd/cyfarwyddwr ffilm deledu ac ati.

Mae'r cymhwyster hwn hefyd ar gael i'w gyflwyno yn Lloegr a Gogledd Iwerddon fel cymhwyster annibynnol.

Manylion y cymhwyster

Diploma Lefel 3 AIM Qualifications mewn Creu Cyfryngau, Cynhyrchu a Chymorth Crefft	
Cymhwyster	Technegol
Asesiad	Tystiolaeth asesu'n cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol
Graddio	Pasio/Methu
Cwmpas Daearyddol	Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon
Dyddiad Cychwyn Gweithredol	01/03/2016
Dyddiad adolygu	24/07/2024
Sector	9.3 Cyfryngau a Chyfathrebu
Rhif y Cymhwyster	601/8449/8
Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH)	258
Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT)	630
Isafswm oedran dysgwr	16+
Rheolau Cyfuno	Rhaid i ddysgwyr gyflawni 63 credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid i ddysgwyr gyflawni 24 credyd o'r unedau Gorfodol, o leiaf 39 credyd o'r Grŵp Dewisol. Gellir cyflawni uchafswm o 30 credyd ar Lefel 2.

Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (RQF)

Mae'r Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig (RQF) yn darparu un system, syml ar gyfer catalogio'r holl gymwysterau a reoleiddir gan Ofqual. Mae cymwysterau'n cael eu mynegeio yn ôl eu lefel a'u maint. Mae lefelau yn nodi anhawster a chymhlethdod y wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gymhwyster. Mae yna wyth lefel a gefnogir gan dair "lefel mynediad". Mae maint yn cyfeirio at gyfanswm amcangyfrifedig yr amser y gallai ei gymryd fel arfer i astudio ac asesu ar gyfer cymhwyster. Mynegir maint yn nhermau Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT). Mae'r rhan o'r TQT sy'n cael ei dreulio yn cael ei addysgu neu ei oruchwylio yn cael ei alw yn Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH).

Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) ac Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH)

Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT) yw'r nifer o oriau tybiannol mae'n eu cymryd i ddysgwr nodweddiadol gyflawni'r cymhwyster llawn ac mae'n **cynnwys dwy elfen:**

- y nifer lleiaf o Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH) ar gyfer y Cymhwyster - nifer yr oriau cyswllt dan arweiniad Tiwtor
- nifer yr oriau a dreulir ar baratoi, astudio a'r asesiad heb ei arwain

Er enghraifft, nifer yr oriau cyswllt dan arweiniad tiwtor (GLH) ar gyfer cymhwyster yw 30 a nifer yr oriau a dreulir gan y dysgwr (nad ydynt yn GLH) ar baratoi, astudio a'r asesiad yw 6 awr. Felly Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT) ar gyfer y cymhwyster yw 36 awr.

Cyfleoedd dilyniant

Gallai dysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster hwn symud ymlaen i addysg uwch neu brentisiaeth gradd neu'n syth i gyflogaeth, mewn ystod eang o swyddi yn y diwydiannau cyfryngau.

Gofynion mynediad

Rhaid i ddysgwyr gael eu cyflogi mewn diwydiant cysylltiedig i ymgymryd â'r cymhwyster hwn.

Gofynion adnoddau

Rhaid i ddysgwyr gael mynediad i sefyllfa waith go iawn ar gyfer gweithgareddau ymarferol. Bydd adnoddau eraill sydd eu hangen yn ddibynnol ar yr uned(au) sy'n cael eu cyflwyno; rhoddir y manylion hyn ar yr uned. Mae hyn yn amrywio ar ddewis uned e.e. radio, dylunio gwe, cynhyrchu ffilm/fideo.

Gofynion i gyflwyno'r Cymhwyster hwn

Fel Sefydliad Dyfarnu,rydym ni'n ei gwneud yn ofynnol bod:

Tiwtoriaid yn meddu ar brofiad addysgu perthnasol a/neu gymhwyster a phrofiad a/neu gymhwyster yn y maes pwnc perthnasol. Mae cymwysterau addysgu addas yn cynnwys:

- Lefel 3 neu 4 Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTLLS) neu uwch
- Addysg a Hyfforddiant Lefel 3 neu uwch
- Diploma neu Dystysgrif mewn Addysg
- Gradd Baglor neu Radd Meistr mewn Addysg

Mae aseswyr yn meddu ar gymhwyster aseswr neu dystiolaeth o brofiad perthnasol diweddar.
Mae cymwysterau aseswr addas yn cynnwys:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol
- A1 Asesu Perfformiad Ymgeiswyr gan ddefnyddio Ystod o Ddulliau
- D32 Asesu Perfformiad Ymgeiswyr a D33 Asesu Ymgeisydd gan ddefnyddio Ffynonellau Tystiolaeth Gwahanol

Yn ogystal, yn benodol ar gyfer y cymhwyster hwn, dylai fod gan Aseswyr brofiad galwedigaethol cyfredol a pherthnasol o weithio yn y sector cyfryngau rhyngweithiol a, lle bo hynny'n bosibl, cymhwyster/cymwysterau perthnasol (mae hyn yn cael ei nodi yng ngofynion asesu ychwanegol Skillset)

Mae gan Wirwyr Mewnol (IV) gymhwyster gwirio mewnol neu dystiolaeth o brofiad perthnasol diweddar.
Mae cymwysterau gwirio mewnol addas yn cynnwys:

- Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu
- Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrwydd Ansawdd Mewnol Prosesau ac Ymarfer Asesu
-
- V1 Cynnal Gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Mewnol y Broses Asesu
- D34 Gwirio'r Broses Asesu yn Fewnol

Yn ogystal, rhaid bod gan Wirwyr Mewnol brofiad galwedigaethol o weithio yn y sector cyfryngau rhyngweithiol a, lle bo hynny'n bosibl, cymwysterau perthnasol

Adran 2 — Strwythur y cymhwyster

Strwythur a chydrannau'r cymhwyster

Mae'r adran hon yn manylu ar reolau cyfuniadau ar gyfer y cymhwyster hwn. Dewiswch deitlau'r cydrannau i weld manylion y gydran.

Rheolau cyfuno ar gyfer:	**Diploma Lefel 3 mewn Creu Cyfryngau, Cynhyrchu a Chymorth Crefft**

Rhaid i ddysgwyr gyflawni 63 credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid i ddysgwyr gyflawni 24 credyd o'r unedau Gorfodol, o leiaf 39 credyd o'r Grŵp Dewisol.
Gellir cyflawni uchafswm o 30 credyd ar Lefel 2.

Cod Cydran	Teitl Cydran	Lefel	Credyd	ODDA
Gorfodol				
M/508/1628	Cyflwyno Syniadau a Gwybodaeth i Eraill yn y Diwydiannau Creadigol	Tri	6	29
K/508/1630	Gweithio'n Effeithiol gydag Eraill yn y Diwydiannau Creadigol	Tri	4	13
M/508/1631	Datblygu Eich Ymarfer Proffesiynol Eich Hun yn y Diwydiannau Creadigol	Tri	6	27
T/508/1632	Rheoli a Marchnata Eich Hun fel Gweithiwr Llawrydd yn y Diwydiannau Creadigol	Tri	6	35
F/508/1634	Sicrhau Bod Eich Camau Gweithredu Eich Hun Yn Lleihau Risgiau i Iechyd a Diogelwch	Tri	2	20
Dewisol				
L/508/1636	Egwyddorion Cyfrannu at Arloesi a Newid	Tri	2	15
Y/508/1638	Cyfrannu Syniadau ar gyfer Cynhyrchu	Tri	6	27
D/508/1639	Nodi Ffynonellau Gwybodaeth a Chyflwyno Canfyddiadau	Tri	4	20
D/508/1642	Dadansoddi Sgriptiau Yn Ystod Cyn-Gynhyrchu	Pedwar	10	46
T/508/1646	Gweithio gyda'r Cyfryngau Digidol yn y Diwydiannau Creadigol	Tri	4	18
F/508/1648	Gweithio i Frîff yn y Diwydiannau Cyfryngau Creadigol	Tri	10	60
J/508/1649	Nodi a Thrafod Materion Hawlfraint ar gyfer Cynhyrchiad Darlledu	Pedwar	8	30
F/508/1651	Cyfrannu at Gyn-Gynhyrchu yn y Swyddfa	Tri	6	32
J/508/1652	Ysgrifennu Copi ar gyfer Platfformau Lluosog	Tri	7	32
L/508/1653	Cael Asedau i'w defnyddio mewn Cynhyrchion Cyfryngau Rhyngweithiol	Tri	5	26
D/508/1656	Cael Deunydd Archif	Tri	8	32
M/508/1659	Cael Deunydd Archif ar gyfer Cynyrchiadau	Pedwar	8	30
H/508/1660	Cael Asedau i'w defnyddio mewn Cynhyrchion Cyfryngau Rhyngweithiol	Tri	9	48
K/508/1661	Ymgymryd ag Addasiad Technegol o Ddelweddau	Tri	7	40

Rheolau cyfuno ar gyfer:	Diploma Lefel 3 mewn Creu Cyfryngau, Cynhyrchu a Chymorth Crefft

Rhaid i ddysgwyr gyflawni 63 credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid i ddysgwyr gyflawni 24 credyd o'r unedau Gorfodol, o leiaf 39 credyd o'r Grŵp Dewisol.
Gellir cyflawni uchafswm o 30 credyd ar Lefel 2.

Cod Cydran	Teitl Cydran	Lefel	Credyd	ODDA
T/508/1663	Paratoi Allbwn Delwedd	Tri	6	35
A/508/1664	Creu Animeiddiadau 2D ar gyfer Cynhyrchion Cyfryngau Rhyngweithiol	Tri	10	30
F/508/1665	Cofnodi Deunydd Sain Gweledol	Tri	7	35
J/508/1666	Golygu, Prosesu a Chymysgu Sain	Tri	6	26
L/508/1667	Recordio Sain ar Leoliad ac yn y Stiwdio	Tri	5	22
Y/508/1669	Amlyncu Deunydd ar gyfer Ôl-gynhyrchu	Tri	7	32
R/508/1671	Ymgymryd ag Ymchwil ar gyfer Cynnwys Radio	Tri	5	20
D/508/1673	Gweithredu Stiwdio Radio	Tri	7	32
M/508/1676	Cyflwyno Rhaglen Radio	Tri	7	28
A/508/1678	Paratoi ar gyfer a Chynnal Cyfweliadau yn y Diwydiannau Creadigol	Tri	4	15
F/508/1679	Cyfathrebu gan ddefnyddio Sianeli Marchnata/Gwerthu Digidol	Tri	4	26
T/508/1680	Defnyddio Cyfryngau Digidol a Chymdeithasol mewn Ymyrchoedd Marchnata	Dau	2	7
A/508/1681	Cynhyrchu Cyfathrebiadau Marchnata Creadigol - Cysyniadau ac Atebion Hysbysebu ar gyfer Cleientiaid	Pedwar	7	30
J/508/1683	Bodloni Gofynion ar gyfer Defnyddio Anifeiliaid ar Gynhyrchiad Darlledu	Tri	3	10
L/508/1684	Diwallu Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Plant sy'n Gweithio ar Gynyrchiadau	Pedwar	4	14
R/508/1685	Gwneud Trefniadau ar gyfer Cast a Chriw sy'n Teithio ar Gynhyrchiad Darlledu	Pedwar	4	20
Y/508/1686	Cydymffurfio â Rheoliadau a Chodau Ymarfer yn y Diwydiant Cynhyrchu	Pedwar	3	13

Disgrifyddion lefel

Mae lefel yn cael ei neilltuo i gydrannau yn seiliedig ar y gofynion cyfredol ar gyfer y RQF fel y'i cyhoeddwyd gan OFQUAL.

Lefel	Disgrifydd gwybodaeth	Disgrifydd Sgiliau
Lefel 2	Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau mewn maes astudio neu faes gwaith i gwblhau tasgau wedi'u diffinio'n dda a mynd i'r afael â phroblemau syml. Yn gallu dehongli gwybodaeth a syniadau perthnasol. Yn ymwybodol o ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes astudio neu'r gwaith.	Dewis a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol perthnasol i gwblhau tasgau rheolaidd sydd wedi'u diffinio'n dda, yn gyffredinol, a mynd i'r afael â phroblemau syml. Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i lywio camau gweithredu. Nodi pa mor effeithiol y bu camau gweithredu.
Lefel 3	Yn meddu ar wybodaeth ffeithiol, gweithdrefnol a damcaniaethol a dealltwriaeth o bwnc neu faes gwaith i gwblhau tasgau a allai, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, fod yn gymhleth ac nad ydynt yn arferol. Yn gallu dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol. Yn ymwybodol o natur y maes astudio neu'r gwaith. Yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y maes astudio neu waith.	Nodi, dethol a defnyddio sgiliau, dulliau a gweithdrefnau gwybyddol ac ymarferol priodol i fynd i'r afael â phroblemau a allai, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, fod yn gymhleth ac nad ydynt yn arferol. Defnyddio ymchwiliad priodol i lywio camau gweithredu. Adolygu pa mor effeithiol y bu dulliau a chamau gweithredu.
Lefel 4	Yn meddu ar wybodaeth ymarferol, damcaniaethol neu dechnegol a dealltwriaeth o bwnc neu faes gwaith i fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi'u diffinio'n dda ond sy'n gymhleth ac nad ydynt yn arferol. Yn gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol. Yn ymwybodol o natur cwmpas bras y maes astudio neu waith.	Nodi, addasu a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol priodol i lywio camau gweithredu a mynd i'r afael â phroblemau sy'n gymhleth ac nad ydynt yn arferol sydd wedi cael eu diffinio'n weddol dda. Adolygu effeithiolrwydd a phriodoldeb dulliau, camau gweithredu a chanlyniadau.

Adran 3 - Asesu

Sut mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu

Mae'r broses asesu fel a ganlyn:

1. Mae tasgau/strategaethau asesu addas sy'n caniatáu i ddysgwyr allu darparu tystiolaeth o gyflawni meini prawf asesu'r uned(au) yn cael eu gosod yn fewnol mewn canolfannau
2. Rhaid i'r Gwiriwr Mewnol graffu ar bob tasg asesu cyn iddynt gael eu cyflwyno i ddysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben
3. Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu, gan ddefnyddio'r tasgau asesu wedi'u cymeradwyo gan y gwiriwr mewnol (IV)
4. Mae'r dystiolaeth a aseswyd sy'n deillio o hynny yn cael ei gwirio'n fewnol gan IV yn y ganolfan
5. Bydd dilyswr allanol (EV) wedi'i benodi gan AIM Qualifications yn craffu ar y dystiolaeth asesedig er mwyn sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd yr asesiad

Mae amrywiaeth o ddeunyddiau asesu sampl ar gael ar ein gwefan.

Mae canllawiau ar ein disgwyliadau ar gael yn AIM Qualifications: Llawlyfr Asesu.

Addasiad rhesymol ac ystyriaethau arbennig

Mae addasiadau rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig ar gael ar gyfer pob asesiad, waeth a ydynt wedi'u gosod yn fewnol neu'n allanol. Pan na all dysgwr neu grŵp o ddysgwyr gael mynediad i'r asesiad heb Addasiadau Rhesymol, dylai canolfannau sicrhau eu bod yn gwneud cais mewn da bryd i addasiadau rhesymol perthnasol gael eu gwneud, gan ddefnyddio Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig AIM Qualifications sy'n rhoi canllawiau clir ar yr addasiadau a'r trefniadau rhesymol y gellir eu gwneud i ystyried anabledd neu anhawster dysgu heb beryglu cyflawni'r meini prawf asesu.

Dulliau asesu

Dylai pob tasg asesu a osodwyd yn fewnol fod yn dryloyw, yn deg, yn gynhwysol, yn ddibynadwy, yn drylwyr, yn berthnasol ac yn ddigonol a chaniatáu i ddysgwyr gynhyrchu gwaith sy'n ddilys. Rhaid asesu dysgwyr yn Saesneg yn Lloegr, Saesneg neu Gymraeg yng Nghymru a Saesneg neu Wyddeleg yng Ngogledd Iwerddon (oni bai bod y cymhwyster yn ymwneud yn benodol â dysgu iaith dramor).

Ar gyfer prentisiaid argymhellir, lle bo hynny'n bosibl, bod tasgau asesu yn seiliedig ar dasgau sy'n ofynnol i'r prentis eu cyflawni yn eu cyflogaeth.

Rhaid i dasgau asesu ganiatáu i bob dysgwr gynhyrchu tystiolaeth o'u cyflawniad ar gyfer holl feini prawf yr uned mewn modd sy'n briodol ar gyfer y meini prawf asesu, y math o uned a'r dysgwr.

Tasgau ysgrifenedig

Pan fo'r tasgau yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu gwaith ysgrifenedig, gall hyn gael ei ysgrifennu â llaw neu ei deipio. Rhaid i iaith y dasg fod yn seiliedig ar y ferf/berfau asesu. Bydd ansawdd a maint y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir yn dibynnu ar lefel a chyd-destun yr uned.

Gallu ymarferol

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'r dysgwyr yn cwblhau tasgau yn unigol ac yn weithredol sy'n dangos cyflawni'r meini prawf asesu.

Gellir asesu tystiolaeth drwy arsylwi perfformiad yn uniongyrchol a rhaid cynnwys o leiaf ddau o'r canlynol:

- ffotograffau wedi'u hanodi
- datganiadau tyst manwl
- fideo (gyda naratif neu log ysgrifenedig)
- cofnod/gwerthusiad dysgwyr
- adroddiad arsylwi cymheiriaid

O.N Lle defnyddir ffotograffau/fideos, rhaid nodi pwy yw pob dysgwr unigol yn glir.

Cwestiwn ac ateb llafar

Rhaid i dystiolaeth gynnwys y cwestiynau a ofynnir yn ogystal â thrawsgrifiad o union ymatebion y dysgwr. Gallai hyn fod yn ysgrifenedig neu recordiad sain neu fideo.

Trafodaeth grŵp

Rhaid gosod a darparu manylion y pwnc/dasg. Rhaid darparu tystiolaeth bod pob dysgwr yn cyflawni pob meini prawf asesu a gwmpesir gan y dasg/tasgau grŵp.

Rhaid i dystiolaeth gynnwys o leiaf ddau o'r canlynol:

- trawsgrifiad neu fideo o ymatebion dysgwyr
- cofnod/gwerthusiad dysgwyr
- adroddiad arsylwi cymheiriaid
- datganiad tyst manwl yn esbonio'r hyn mae pob dysgwr wedi'i gyfrannu a sut y gwnaethant ymddwyn

Arteffact/cynnyrch

Pan fo'r uned yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu arteffact neu gynnyrch ffisegol, rhaid darparu'r arteffact neu'r cynnyrch ar gyfer y Gwiriwr Mewnol ac Allanol oni bai bod hyn yn anymarferol (er enghraifft os yw'r cynnyrch yn ddefnyddiau traul), ac os felly mae sawl ffotograff wedi'u hanodi, recordiadau sain neu fideo o'r arteffact yn dystiolaeth dderbyniol.

Rhaid i dystiolaeth dysgwyr gynnwys:

- manylion y tasgau a osodwyd i ddysgwyr eu cwblhau, wedi'u mapio yn erbyn meini prawf asesu'r
- datganiad gan ddysgwyr mai eu gwaith nhw eu hunain yw'r holl waith a gynhyrchir
- tystiolaeth asesu crynodol a gynhyrchir gan ddysgwyr - rhaid peidio â chynnwys deunyddiau addysgu fel tystiolaeth

Mae ffurflenni asesu templed ar gael ar ein gwefan.

Marcio, gwirio ac addasiadau

Marcio tasgau

Unwaith y bydd dysgwyr wedi cwblhau gwaith yn erbyn y tasgau asesu, rhaid i'r Asesydd farcio'r gwaith yn erbyn y meini prawf asesu er mwyn sicrhau ei fod ar y lefel gywir ar gyfer yr uned a'i fod yn ddigonol, yn briodol ac yn ddilys. Rhaid i chi sicrhau bod tystiolaeth a gynhyrchir gan ddysgwyr unigol mewn asesiad yn cael ei chynhyrchu gan y dysgwr hwnnw, h.y. nad yw llên-ladrad yn digwydd.

Rhaid i aseswyr farnu a marcio a yw'r holl feini prawf asesu naill ai'n cael ei gyflawni ai peidio. Dim ond pan fydd yr holl feini prawf asesu wedi'u cyflawni mae unedau yn cael eu cyflawni.

Rhaid cymryd pob cam rhesymol i osgoi unrhyw ran o asesu dysgwr (gan gynnwys dilysu) yn cael ei wneud gan unrhyw berson sydd â diddordeb personol yng nghanlyniad yr asesiad.

Cofnodi cyflawniad

Rhaid i aseswyr ei gwneud yn glir i'r Gwirwyr Mewnol ac Allanol lle mae tystiolaeth o gyflawni pob maen prawf asesu. Mae AIM Qualifications yn darparu Cofnod o Ffurflenni Cyflawniad Dysgwyr fel dogfennau Word ar ein gwefan ochr yn ochr â phob uned unigol. Gallwch ddefnyddio'r ffurflenni hyn wedi'u llenwi ymlaen llaw neu ffurflenni eich canolfan, ond rhaid dangos tystiolaeth glir o gyflawni pob maen prawf asesu a'u mapio'n glir i feini prawf asesu'r uned.

Unwaith y bydd y gwaith wedi'i farcio ac wedi'i gymeradwyo am fodloni'r meini prawf asesu gan yr Asesydd, dylid rhoi adborth terfynol i'r dysgwr. Rhaid i'r Asesydd dicio'r RAC i nodi pa uned(au) mae pob dysgwr wedi'u cyflawni ac yna llofnodi i gadarnhau'r ardystiad (gweler Adran 4: Canllawiau Gweithredol).

Dylid cyflwyno'r gwaith wedi'i farcio wedi'i gwblhau i'r Gwiriwr Mewnol i'w samplu yn ôl y cynllun gwirio mewnol. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau rhaid i'r Gwiriwr Mewnol lofnodi'r RAC.

Dilysu allanol (EV)

Unwaith y bydd gwaith y dysgwr wedi'i gwblhau, ei asesu a'i wirio'n fewnol yn ôl y cynllun gwirio mewnol, dylid ei gyflwyno i'w wirio'n allanol. Bydd yr EV yn disgwyl gallu edrych ar holl waith dysgwyr sydd wedi'i gwblhau a'i asesu sy'n cael ei hawlio ar yr RAC(au). Bydd yr EV am adolygu cofnodion asesu, dogfennaeth gwiriwr mewnol (IV), Ffurflenni Cofnod Cyflawniad Dysgwyr (neu unrhyw ddogfennau mapio eraill), adborth i ddysgwyr ac unrhyw addasiadau rhesymol sy'n cael eu rhoi ar waith. Rhaid i'r RACs wedi'u cwblhau hefyd fod ar gael er mwyn i'r EV eu hadolygu. Os yw'r EV yn fodlon â'r safonau asesu a gwirio, byddant yn cymeradwyo'r RACs drwy eu llofnodi ac yna bydd dysgwyr yn cael eu hardystio.

Addasiadau Rhesymol

Addasiadau rhesymol yw addasiadau sy'n cael eu gwneud i asesiad ar gyfer cymhwyster er mwyn galluogi dysgwr i ddangos ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth. Mae natur unrhyw addasiadau rhesymol yn dibynnu ar y gofynion penodol yn ogystal ag ar y cymhwyster a'r dulliau asesu. Yn gyffredinol, nid yw addasiadau rhesymol yn briodol lle mae anhawster penodol y dysgwr yn effeithio'n uniongyrchol ar berfformiad yn y priodoleddau gwirioneddol i'w hasesu.

Efallai y bydd y Gwiriwr Mewnol yn rhoi caniatâd ar gyfer addasiadau rhesymol i ddysgwr heb orfod gwneud cais i AIM Qualifications am gymeradwyaeth, ar yr amod nad yw trefniadau o'r fath yn rhoi mantais annheg. Rhaid i'r Gwiriwr Mewnol gymeradwyo a chofnodi manylion yr holl addasiadau rhesymol a wnaed yn ôl disgresiwn y ganolfan a rhaid iddo sicrhau bod hyn ar gael i'w gwirio'n allanol.

Mae rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn ein polisi **Addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig sydd ar gael ar ein gwefan.**

Ystyriaethau arbennig

Ystyriaeth Arbennig yw ystyriaeth i'w rhoi i ddysgwr sydd wedi profi salwch neu anaf dros dro, neu ryw ddigwyddiad arall y tu allan i'w reolaeth sydd wedi cael neu sy'n rhesymol debygol o fod wedi cael effaith ar ei allu i gymryd asesiad neu ar lefel ei gyrhaeddiad mewn asesiad. Nid yw ystyriaeth arbennig yn briodol ar gyfer mân salwch neu fân aflonyddwch. Efallai na fydd yn bosibl cymhwyso ystyriaeth arbennig pan fo asesiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr ddangos cymhwysedd ymarferol. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd yn fwy priodol cynnig cyfle i'r dysgwr gymryd yr asesiad yn ddiweddarach yn hytrach na chymhwyso ystyriaethau arbennig.

Dylid llenwi ffurflen gais ystyriaethau arbennig, sydd ar gael ar ein gwefan, ar gyfer pob dysgwr sy'n gofyn am ystyriaeth arbennig gyda thystiolaeth ategol, a all gynnwys tystiolaeth feddygol/seicolegol neu ddatganiad gan y goruchwyliwr/gwiriwr.

Mae rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn ein polisi **Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig** sydd ar gael ar ein gwefan.

Safoni cymwysterau AIM

Bydd gofyn i ganolfannau ddarparu samplau o dasgau asesu ar gyfer gweithgarwch safoni cymwysterau AIM Qualifications. Mae safoni cymwysterau yn broses sy'n hyrwyddo cysondeb o ran dealltwriaeth a chymhwyso safonau ac sy'n rhoi gwybodaeth bwysig i ni ar gyfer ein proses adolygu cymwysterau.

Mae'n ofyniad yng Nghytundeb y Ganolfan bod rhaid i bob canolfan sy'n cynnig yr unedau o'r cymhwyster gyfrannu deunyddiau asesu a thystiolaeth dysgwyr ar gyfer safoni os gofynnir amdanynt. Byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn am samplau os oes angen.

Bydd canlyniadau safoni cymwysterau ar gael i'r canolfannau hynny sy'n defnyddio'r cymhwyster hwnnw.

Adran pedwar - Canllawiau gweithredol

Cynnig y cymhwyster hwn

Rhaid i ganolfannau sy'n dymuno cynnig y cymhwyster hwn fod yn ganolfan gydnabyddedig gan AIM. Gall canolfannau newydd wneud cais i ddod yn ganolfan gan ddefnyddio'r broses ymgeisio am gydnabyddiaeth canolfannau ar ein gwefan www.aim-group.org.uk.
Gallwn gynghori canolfannau o'r dulliau gorau a mwyaf effeithlon ar gyfer cynnig y cymhwyster hwn. Bydd yr holl weithdrefnau ar gyfer defnyddio'r cymhwyster hwn, gan gynnwys cymeradwyo, cofrestru dysgwyr, dilysu ac ardystio yn cael eu cwblhau trwy AIM a bydd gan bob canolfan ymgynghorydd profiad cwsmeriaid neilltuedig i'w cefnogi.

Cymeradwyo cynnig y cymwysterau hyn

Rhaid i ganolfannau sy'n dymuno cynnig y cymhwyster hwn gwblhau a chyflwyno cais Cymeradwyo Cymwysterau (i'w gael ar wefan AIM). Gellir dod o hyd i hyn ar wefan AIM wrth ddewis cymhwyster.
Mae rhai cymwysterau yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gael adnoddau penodol ar waith a/neu dylai eu haseswyr/gwirwyr mewnol feddu ar gymwysterau penodol. Lle mae hyn yn wir, rhaid i ganolfannau ddarparu tystiolaeth o adnoddau/gymwysterau staff wrth gwblhau'r cais Cymeradwyo Cymwysterau.

Cofrestru ac ardystio

Unwaith y bydd eich canolfan wedi cael cymeradwyaeth i gynnig cymhwyster, byddwch yn gallu cofrestru dysgwyr gan ddefnyddio porth AIM. Rhaid i ddysgwyr fod wedi cofrestru ar y cymhwyster cywir drwy'r porth. Yna mae canolfannau yn dewis eu cydrannau dewisol.

Ar gyfer yr holl brosesau cofrestru ac ardystio, cyfeiriwch at ddogfen ganllawiau'r porth y gellir ei lawrlwytho o'n gwefan www.aim-group.org.uk. Mae manylion asesu, gwirio mewnol a gwirio allanol i'w gweld yn Llawlyfr Asesu: AIM Qualifications. Llawlyfr Asesu.

Bydd dysgwyr sy'n ennill cymhwyster yn cael tystysgrif cymhwyster sy'n manylu ar y cymhwyster a gyflawnwyd a'r cydrannau. Bydd dysgwyr nad ydynt wedi ennill cymhwyster, ar gais, yn cael tystysgrif gydran sy'n manylu ar y cydrannau a gyflawnwyd.

Adran pump - Atodiadau a dolenni

Atodiadau a dolenni

Dewiswch atodiad neu ddolen o'r rhestr isod i weld y ddogfen.

Cysylltiadau defnyddiol

Dolen 1 - Llawlyfrau a ffurflenni Canolfannau AIM

Dolen 2 - AIM Qualifications: Llawlyfr Asesu

Dolen 3 - Ffioedd a Thaliadau

Dolen 4 - Chwilio Cymwysterau

Atodiadau defnyddiol

Atodiad 1 - Geirfa termau asesu

Berfau gorchymyn

Lefel 1	
Cymharwch	Edrych ar debygrwydd a gwahaniaethau.
Dangoswch	Cwblhau tasg neu weithgaredd ymarferol i ddangos cymhwysedd.
Disgrifiwch	Ysgrifennu neu siarad am y pwnc neu'r gweithgaredd.
Rhowch (enghraifft o...)	Rhoi enghreifftiau perthnasol ar gyfer y pwnc.
Rhowch ffyrdd	Rhoi gwybodaeth am sut i gefnogi'r pwnc.
Nodwch	Rhestru neu enwi'r prif bwyntiau
Darluniwch	Rhoi gwybodaeth glir gydag enghreifftiau (ee llafar, ysgrifenedig, lluniau, diagramau ac ati)
Rhestrwch	Nodi neu wneud rhestr o eitemau, geiriau, datganiadau neu sylwadau
Amlinellwch	Nodi'r prif bwyntiau yn fyr
Datganwch	Rhoi'r prif bwyntiau mewn brawddegau byr, clir
Crynhowch	Cyflwyno'r prif bwyntiau yn fyr

Lefel 2	
Aseswch	Rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl ffactorau neu'r digwyddiadau sy'n berthnasol a nodi pa rai yw'r pwysicaf neu berthnasol. Llunio barn ar bwysigrwydd rhywbeth a dod i gasgliad lle bo angen.
Cymharwch	Archwilio'r pynciau yn fanwl gan edrych ar debygrwydd a gwahaniaethau.
Diffiniwch	Nodi ystyr gair neu ymadrodd neu broses.
Dangoswch	Cymhwyso sgiliau mewn sefyllfa ymarferol.
Disgrifiwch	Ysgrifennu neu siarad am y pwnc neu'r gweithgaredd gan roi gwybodaeth. Mae angen datblygu datganiadau yn yr ymateb gan eu bod yn aml yn gysylltiedig ond nid oes angen iddynt gynnwys cyfiawnhad na rheswm.
Amcangyfrifwch	Rhoi penderfyniad neu farn fras gan ddefnyddio gwybodaeth neu brofiad blaenorol.
Esboniwch	Gwneud yn glir. Rhoi rhesymau dros. Mae esboniad yn gofyn am gyfiawnhau/enghreifftiau o bwynt. Rhaid i'r ateb gynnwys rhyw elfen o resymu/cyfiawnhad, gall hyn gynnwys esboniadau mathemategol/rhesymegol.
Gwerthuswch	Archwilio cryfderau a gwendidau. Gwneud pwyntiau o blaid ac yn erbyn.
Rhowch (enghraifft o...)	Rhoi enghreifftiau perthnasol ar gyfer y pwnc.
Nodwch	Darparu gwybodaeth gryno am bwnc, proses benodol neu weithgaredd.
Darluniwch	Rhoi gwybodaeth neu ddisgrifiadau clir gydag enghreifftiau (e.e. llafar, ysgrifenedig, lluniau, diagramau ac ati).
Trefnwch	Rhoi gwybodaeth mewn dilyniant rhesymegol.
Amlinellwch	Nodi neu ddisgrifio'r prif bwyntiau yn fyr.
Datganwch	Rhoi'r prif bwyntiau mewn brawddegau byr, clir.
Crynhowch	Cyflwyno crynodeb o'r prif bwyntiau yn fyr.

Lefel 3	
Dadansoddwch	Mae dysgwyr yn cyflwyno canlyniad arholiad trefnus a manwl naill ai: drwy ddadansoddi thema, pwnc, neu sefyllfa er mwyn dehongli ac astudio'r rhyng-berthynas rhwng y rhannau. a/neu o wybodaeth neu ddata i ddehongli ac astudio tueddiadau allweddol a rhyng-berthnasau.
Aseswch	Mae dysgwyr yn cyflwyno ystyriaeth ofalus o ffactorau neu ddigwyddiadau amrywiol sy'n berthnasol i sefyllfa benodol neu'n nodi'r rhai sydd bwysicaf neu fwyaf perthnasol ac yn dod i gasgliad.
Cymharwch a Chyferbynnwch	Gall dysgwyr nodi'r prif ffactorau sy'n ymwneud â dwy neu fwy eitem/sefyllfaoedd neu agweddau ar bwnc sy'n cael ei ymestyn i egluro'r tebygrwydd, y gwahaniaethau, y manteision a'r anfanteision. Defnyddir hyn i ddangos dyfnder gwybodaeth trwy ddewis ac ynysu nodweddion.
Crëwch	Cynhyrchu gwaith mewn ymateb i frîff neu i gymhwyso sgiliau a thechnegau i gwrdd â bwriad.
Dangoswch	Mae gwaith neu ymarfer dysgwyr yn dangos y gallu i gyflawni a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau mewn sefyllfa ymarferol.
Disgrifiwch	Mae dysgwyr yn rhoi cyfrif clir, gwrthrychol yn eu geiriau eu hunain gan ddangos dwyn i gof ac, mewn rhai achosion cymhwysiad, o'r nodweddion a'r wybodaeth berthnasol am bwnc.
Trafodwch	Archwilio materion, llinellau rhesymu a sefyllfaoedd, gan fynegi gwahanol safbwyntiau.
Amcangyfrifwch	Rhoi penderfyniad neu farn fras gan ddefnyddio gwybodaeth neu brofiad blaenorol.
Gwerthuswch	Adolygu gwybodaeth yna ei dwyn ynghyd i ffurfio casgliad, gan ddefnyddio tystiolaeth gan gynnwys cryfderau, gwendidau, camau gweithredu amgen, data neu wybodaeth berthnasol. Llunio barn cefnogol o rinweddau pwnc a'i berthynas â'i gyd-destun.
Esboniwch	Mae gwaith dysgwyr yn dangos manylion clir ac yn rhoi rhesymau a/neu dystiolaeth i gefnogi barn, safbwynt, neu ddadl. Gallai ddangos sut mae casgliadau yn cael eu llunio.
Cyfiawnhewch	Mae dysgwyr yn gallu rhoi rhesymau neu dystiolaeth i, gefnogi barn, neu brofi rhywbeth cywir neu resymol.
Amlinellwch	Mae dysgwyr yn darparu disgrifiad cyffredinol neu gynllun sy'n dangos y nodweddion hanfodol
Crynhowch	Cyflwyno crynodeb o'r prif bwyntiau yn fyr.

Pob lefel	
Cyfrifwch	Cyfrifo broblem rifiadol, gan ddangos sut y gwnaethant gyrraedd eu hateb.

Geirfa termau asesu

Mae dau brif fath o asesiad: crynodol a ffurfiannol. Yr allwedd i arfer asesu da yw i Aseswyr ddeall yr hyn mae pob dull yn ei gyfrannu ac i adeiladu eu harfer er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd pob un ohonynt.

Maen Prawf Asesu: disgrifiadau lle mae'r Asesydd yn penderfynu p'un a yw dysgwr wedi dangos ei fod yn cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriadwyd ar gyfer lefel benodol.

Asesiad Ffurfiannol: wedi'i gynllunio i roi adborth i ddysgwyr ar gynnydd a llywio datblygiad.

Asesiad Crynodol: yn darparu mesur o gyflawniad o ran perfformiad dysgwr mewn perthynas â'r canlyniadau dysgu a fwriadwyd. Mae'n cyfrannu at ganlyniad cyffredinol wedi ei gyflawni/heb ei gyflawni.

Termau asesu

Dadansoddwch	Nodi ffactorau ar wahân, dangos sut maen nhw'n gysylltiedig a sut mae pob un yn cyfrannu at y cyfanrwydd
Arfarnwch	Ystyried y pwyntiau cadarnhaol a negyddol a rhoi barn resymegol
Aseswch	Rhoi ystyriaeth i'r holl ffactorau neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol ac yna llunio barn ofalus a gwerthfawr ynghylch pa rai yw'r rhai pwysicaf neu berthnasol
Gwnewch sylwadau yn feirniadol	Rhoi barn ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth. Yn benodol penderfynu ar bwysigrwydd yr holl agweddau cadarnhaol a negyddol perthnasol
Cymharwch/cyferbynnwch	Defnyddio'r prif ffactorau sy'n berthnasol mewn dwy neu fwy o sefyllfaoedd i nodi'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau neu fanteision ac anfanteision
Diffiniwch	Nodi'n glir beth mae term penodol yn ei olygu a rhoi enghraifft, os yw'n briodol, i ddangos beth mae'n ei olygu
Dangoswch	Dangos drwy enghraifft
Disgrifiwch	*Rhoi trosolwg clir sy'n cynnwys yr holl nodweddion perthnasol — 'peintio llun gyda geiriau*
Dyluniwch	Creu cynllun, cynnig neu frîff i ddangos cysyniad neu syniad
Trafodwch	Cymryd rhan mewn sgwrs am bwnc
Lluniwch gasgliadau	Defnyddio'r dystiolaeth a ddarperir i ddod i farn resymegol

Gwerthuswch	Penderfynu i ba raddau mae datganiad yn wir neu bwysigrwydd neu werth rhywbeth trwy adolygu'r wybodaeth.
Esboniwch	Nodi'n fanwl ystyr rhywbeth, gyda rhesymau. Yn fwy cymhleth na disgrifio neu restru, felly gall helpu i roi enghraifft i ddangos yr hyn a olygir. Cyflwyno'r pwnc yna rhoi *'sut'* neu *'pam'*
Nodwch	Penderfynu neu ddewis yr un cywir neu rhoi restr o'r prif nodweddion
Darluniwch	Dylai gynnwys enghreifftiau, diagram, lluniau neu ffotograffau i ddangos yr hyn a olygir
Dehongli	Rhoi ystyr rhywbeth
Rhestrwch	Darparu'r wybodaeth mewn rhestr, yn hytrach nag mewn ysgrifennu parhaus
Amlinellwch	Rhoi trosolwg byr
Cynllunio	Gweithio allan a phenderfynu sut i gyflawni tasg neu weithgaredd
Dewis	Dewis o ystod benodol
Datganwch	Rhoi cyfrif clir ond byr
Crynhowch	Ysgrifennu neu fynegi yn fyr y prif bwyntiau neu'r nodweddion hanfodol